Image not found or type unknown

# Dychwelyd i ymarfer gwaith cymdeithasol

Beth sydd angen ei gwneud os ydych chi'n dychwelyd i ymarfer gwaith cymdeithasol

Cyhoeddwyd gyntaf: 8 Mehefin 2022

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/dychwelyd-i-ymarfer-gwaith-cymdeithasol am y fersiwn diweddaraf.

Os nad ydych wedi cofrestru’n weithiwr cymdeithasol neu os nad ydych wedi bod yn ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol ers tro, mae’n bosibl y bydd angen i chi roi tystiolaeth ychwanegol i ni eich bod yn addas i ymarfer os ydych chi am ddychwelyd i weithio fel gweithiwr cymdeithasol.

Mae hyn yn berthnasol os ydych chi'n:

• gweithiwr cymdeithasol sydd wedi cael profiad o waith cymdeithasol ers cymhwyso, ond sydd heb gofrestru ers tair blynedd neu fwy
• gweithiwr cymdeithasol nad yw wedi ymarfer ers cymhwyso dros dair blynedd yn ôl.

## Beth fydd angen i chi ei wneud

Bydd angen i chi:

- wneud cais i gofrestru gyda ni, a gofyn i’r person priodol gymeradwyo eich cais
- darparu tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) neu lunio portffolio o dystiolaeth i ddangos eich bod yn addas i ymarfer.

Os oes rhaid i chi gyflwyno portffolio, bydd angen i chi dalu £200 o ffi ar gyfer asesu eich portffolio, a ffi eich cais. Os cymhwysoch chi ar ôl 1 Ebrill 2016, bydd angen hefyd i chi gwblhau (neu fod wedi cwblhau) y *Rhaglen Gadarnhau ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso.*

Os cymhwysoch chi y tu allan i Gymru, gallwch ddefnyddio cymhwyster cyfwerth, fel rhaglen y flwyddyn gyflogaeth wedi’i hasesu a’i chefnogi (ASYE).

## Faint o dystiolaeth y bydd angen i chi ei dangos i ni

Bydd faint o dystiolaeth y bydd angen i chi ei dangos i ni yn dibynnu am ba hyd y buoch chi i ffwrdd o'r Gofrestr:

- os bu'n **llai na thair blynedd** ers i chi gofrestru'n weithiwr cymdeithasol, bydd angen i chi anfon eich cofnod DPP atom i ddangos sut rydych chi'n bodloni'r gofyniad datblygiad proffesiynol parhaus. Ar hyn o bryd, mae hwn yn 90 awr dros dair blynedd

- os bu **rhwng tair a chwe blynedd** ers i chi gofrestru'n weithiwr cymdeithasol, mae angen i'ch portffolio ddangos 180 awr o wybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol

- os bu **dros chwe blynedd** ers i'ch cofrestriad ddod i ben ac nid ydych wedi cofrestru ers hynny, mae angen i'ch portffolio ddangos eich bod wedi treulio 360 awr yn diweddaru eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth broffesiynol

- os **nad ydych erioed wedi cofrestru a chymhwysoch chi'n weithiwr cymdeithasol dros chwe blynedd yn ôl**, mae angen i'ch portffolio ddangos eich bod wedi treulio 360 awr yn diweddaru eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth broffesiynol.

Byddwn yn edrych ar eich tystiolaeth ac yn defnyddio'r meini prawf i benderfynu a yw'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfredol briodol i ni brosesu eich cais.

Os bydd angen mwy o dystiolaeth arnom, rhown wybod i chi.

Cewch flwyddyn i ddarparu mwy o dystiolaeth a byddwn yn asesu a yw'n gwneud yn iawn am y dystiolaeth a oedd yn brin.

# Pa dystiolaeth gallwch chi ei defnyddio i lunio portffolio

## Gweithgareddau

Os bydd angen i chi roi portffolio at ei gilydd, gallwch gynnwys enghreifftiau o:

- astudio neu hyfforddiant ffurfiol trwy gyrsiau neu raglenni wedi'u hachredu
- astudio preifat, gan gynnwys ymchwil a gwaith darllen perthnasol
- seminarau
- addysgu
- gweithgareddau eraill, y gellid disgwyl yn rhesymol eu bod yn symud datblygiad proffesiynol gweithiwr cymdeithasol yn ei flaen
- ymarfer dan oruchwyliaeth neu gysgodi ymarfer, gan gynnwys gwaith prosiect, cysgodi gwaith cymdeithasol, gwaith gwirfoddol perthnasol, a myfyrio ar ymarfer gwaith cymdeithasol a'i ddadansoddi

Os penderfynwch chi gynnwys ymarfer dan oruchwyliaeth neu gysgodi ymarfer, bydd angen cytundeb arnoch gyda'ch cyflogwr. Cytundeb ffurfiol yw hwn, a ddylai:

- ddisgrifio pa weithgareddau y byddwch chi'n eu gwneud
- cynnwys y cyfnod y mae'r cytundeb a'r lleoliad yn ei gwmpasu
- gwneud yn siŵr bod goruchwyliwr i oruchwylio'ch lleoliad
- gwneud yn siŵr eich bod yn cael eich goruchwylio'n briodol ac yn cael cyfleoedd i fyfyrio ar eich dysgu
- gwneud yn siŵr na fyddai unrhyw gysylltiad heb oruchwyliaeth â phobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, neu ofalwyr, yn cael ei ganiatáu
- cynnwys cadarnhad o'ch lleoliad a'r gweithgareddau gan eich cyflogwr.

Os ydych wedi gweithio fel gweithiwr cymdeithasol cymwysedig yn y gorffennol, gallwch ddefnyddio astudiaethau preifat ar gyfer hyd at 50 y cant o’ch portffolio.

Os nad ydych erioed wedi gweithio fel gweithiwr cymdeithasol cymwysedig, gallwch ddefnyddio astudiaethau preifat ar gyfer hyd at 25 y cant o’ch portffolio.

**Dogfennau**

Dylai eich portffolio gynnwys:

- tystysgrifau i ddangos eich bod wedi cwblhau neu fynychu cyrsiau
- tystiolaeth neu werthusiadau byr o gysgodi ymarfer neu ymarfer arall
- rhestr o’r llyfrau a ddarllenoch ar gyfer gwaith, i ddatblygu eich ymarfer.

Mae angen i’ch portffolio ddangos bod eich dysgu yn berthnasol i ymarfer gwaith cymdeithasol cyfredol. Hefyd, bydd angen i chi ddangos sut mae eich dysgu yn cyfrif am:

- y rolau allweddol a’r safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer gwaith cymdeithasol
- y wybodaeth a’r ddealltwriaeth y bydd arnoch eu hangen fel gweithiwr cymdeithasol
- y sgiliau y mae angen i chi feddu arnynt fel gweithiwr cymdeithasol deddfwriaeth, polisi ac ymarfer gwaith cymdeithasol cyfredol.

## Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ddychwelyd i ymarfer, e-bostiwch ein tîm cofrestru: ymholiadau@gofalcymdeithasol.cymru.